

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwinnog 730357

4ydd Ionawr, 2023.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Nos Lun nesaf, 9fed Ionawr, 2023 am 7.30 y.h. yn Festri Capel Hebron, Llangwinnadl.

1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

2. YMDDIHEURIADAU

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn gwybodaeth.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed RHAGFYR, 2022

Copi'n amgaeedig.

"A"

I drafod y materion yn codi o'r cofnodion.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

I ystyried y cais isod ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.

Cais C22/1151/32/LL – estyniad i adeilad anifaeliaid – Tir Dafydd, Sarn Mellteyrn.

Yn y cyswllt hwn, derbyniwyd gwybodaeth ynglyn a'r pentref Pwyliaid ym Mhenrhos – copi'n amgaeedig. "B"

6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. AWDURDOD I DALU

I awdurdodi unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor :

8. CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL

I ystyried y ceisiadau a ganlyn:

Cerebal Palsy Cymru

Cyfeillion Mynwent Mellteyrn

Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru yn Eryri

Copi o'r ceisiadau yn amgaeedig.

"C"

Yn y cyswllt hwn i ystyried sylwadau'r Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn, ynglyn a chyflwr mynwent Eglwys Botwinnog.

9. **YR IS-BWYLLGOR CYLLID**

I bennu aelodau ar yr Is-bwyllgor Cyllid. (Aelodaeth presennol – Cynghorwyr Glyn Roberts, Glenys Williams ynghyd a Chadeirydd y Cyngor (sef Glyn Roberts am 2022/23).

Gan fod David Brunelli ag Ifor Owen wedi ymddeol o fod yn aelodau o'r Cyngor nid yw'r is-bwyllgor yn gyfansoddiad ond gyda dau aelod.

I bennu'r prasept ar gyfer 2023/24.

10. **CRONFA COVID-19 LLYN AC EIFIONYDD**

Llythyr dderbyniwyd gan Dr. Arfon Williams yn ystod mis diwethaf.

Copi'n amgaeedig.

“CH”


11. **CYRSIAU UN LLAIS CYMRU**

Rhestr o'r cyrsiau a gynigir yn ystod mis Ionawr i Mawrth, 2023 – tâl yr aelod “D”

Rhestr o gyrsiau rhad ac am ddim

“DD”

Yn gywir,



Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

Carys H. Evans
Dylan Parry Jones
Efan Thomas
Iwan J. Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Carys E. Williams
Siôn Williams

Gwenan Griffiths
Michael Strain
Glenys Williams